

# Ymchwil i’r polisi prisio mynediad mewn amgueddfeydd a’i effaith: Canllaw Llwyddiant

Rhagfyr 2023


each
5d or £2
WANTED
YOUNG GIRLS
PIGSTY
PLEASE KNOCK
NO CHILDREN
NO PARENTS
NO SISTERS
NO BROTHERS

# Cyflwyniad

# Cyflwyniad

Comisiynwyd ymchwil gan Gymdeithas yn Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) a'i phartneriaid Arts Council England (ACE), Museums and Galleries Scotland (MGS), Llywodraeth Cymru, Cyngor y Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol (NMDA) ac Art Fund, gan DC Research Ltd mewn partneriaeth gyda Durnin Research Ltd i gyflenwi **'Ymchwil i'r polisi prisio mewn amgueddfeydd a'i effaith'.**

Fel rhan o'r ymchwil hon, mae'r Canllaw Arfer Da hwn wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio i helpu i amgueddfeydd ac orielau benderfynu ar strategaethau mynediad sydd yn gwneud y gorau o incwm gan bobl sydd yn gallu talu, a rhoi'r amgueddfa yn nosbarth prisio cywir y farchnad, tra yn dal i gynnig opsiynau prisio sydd yn ei gwneud yn hygyrch a chroesawgar i bawb.

Mae'r Canllaw yn crynhoi'r casgliadau allweddol ynghylch yr effaith o safleoedd codi tâl gwahanol ac yn nodi gwersi a materion allweddol i amgueddfeydd eu hystyried wrth adolygu eu safle codi tâl eu hunain. Mae crynodeb o gasgliadau allweddol yn yr atodiad ar ddiwedd i canllaw ac mae'r adroddiad cyflawn ar gael yma: aim-museums.co.uk

Mae'r canllaw yn seiliedig ar y pynciau canlynol:

- Pwysigrwydd cynllunio business ac adolygu
- Gosod prisiau: meincnodau 2023
- Cyfathrebu
- Targedu cynulleidfaoedd
- Gwersi penodol i'r rhai sy'n codi tâl
- Gwersi penodol i'r rhai nad ydynt yn codi tâl

Casgliad clir o'r ymchwil hon yw **na ellir ystyried prisio yn unig gan amgueddfeydd, rhaid i hyn fod yn rhan o'r broses cynllunio busnes wedi'i hysbysu gan werthoedd y sefydliad**. Hefyd, peidiwch â rhagdybio mai codi tâl yn unig yw'r ateb i bob problem amgueddfeydd. Mae llawer iawn o ffactorau eraill yn bwysig i wella hyfywedd a chynaliadwyedd amgueddfeydd.

Er na fydd unrhyw amgueddfa neu oriel yn dymuno dychwelyd i amgylchiadau'r pandemig, roedd ymatebion prisio yn ystod ac yn syth ar ôl y cyfnod hwnnw yn gweithio'n dda i lawer o amgueddfeydd, a grymuswyd llawer yn y sector i wneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol. **Dylai amgueddfeydd dynnu hyder o hyn** – dan bwysau, ac heb wybodaeth berffaith, cafwyd penderfyniadau eu gwneud a oedd yn caniatau i ymwelwyr ddychwelyd er gwaethaf cyfyngiadau a chynnig rhannol yn aml.




# Pwysigrwydd cynllunio busnes ac adolygu

# Pwysigrwydd cynllunio busnes ac adolygu

**Mae adolygu strategaeth brisio yn flynyddol** yn arfer da, a rhaid i godiadau pris fod yn rhan o strategaeth gynllunio busnes cyffredinol a chyllido. Ni ellir ystyried prisio yn unig gan amgueddfeydd, rhaid i hyn fod yn rhan o'r broses cynllunio busnes **wedi'i hysbysu gan werthoedd y sefydliad** fel un ffactor posib mewn gwella hyfywedd a chynaliadwyedd amgueddfeydd.

- I'r rhai sy'n codi tâl, mae hyn yn osgoi 'neidiau mawr' yn dilyn gohirio penderfyniadau anodd ac yn sefydlu adolygiad mynediadau yn niwylliant gwneud penderfyniadau'r amgueddfa.
- I'r rhai nad ydynt yn codi tâl, mae'r adolygiad yn sicrhau bod y sail resymegol y tu ôl i'r polisi hwn yn cael ei thrafod a'i hystyried yn flynyddol.
- I bob amgueddfa, mae'n rheoli disgwyliadau ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr, a rhanddeiliaid ehangach, ac yn arddangos cyfrifoldeb sefydliadol.
- Sicrhewch fod unrhyw newidiadau i brisio mynediad yn cael eu cynllunio'n drylwyr gydag amser cyflwyno digonol.

**Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:**

- Eglurodd Ironbridge Gorge Museum Trust fod y penderfyniad i gynyddu'r tâl mynediad yn rhan o'r broses gosod cyllid blynyddol er mwyn gwrthbwyso costau cynyddol wrth barhau i gydnabod y pwysigrwydd o gyflenwi gwerth eu harian i ymwelwyr a phrisio cystadleuwyr.
- Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o adolygu prisio yn flynyddol gan Beamish Museum – ond hefyd *"y dylai gwerthoedd yr amgueddfa hysbysu pob penderfyniad busnes"* – gan bwysleisio na ddylid penderfyniadau am strategaeth fynediad a phrisio gael eu gwneud ar wahân. Mae meincnodi yn *"broses hanfodol"* o ran gosod prisiau mynediad i Beamish Museum – mae tynnu ar amrywiaeth o gymaryddion perthnasol lleol a chenedlaethol ac edrych ar y cynnig gan y cymaryddion hyn a'u pris yn rhan o'r broses hon.
- Roedd Black Country Living Museum yn adolygu mynediadau fel rhan o osod cyllid ar gyfer yr amgueddfa gyfan gan y Tîm Arwain. Darparwyd craffu gan y Pwyllgor a'r Bwrdd yn seiliedig ar argymhelliad gan y Prif Weithredwr.

**Mae llawer o amgueddfeydd yn defnyddio meincnodi fel rhan o'u prosesau gwneud penderfyniadau.** Gall defnyddio meincnodi helpu i roi hyder i fyrddau neu'r bobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau o ran prisio a thocynnau arfaethedig. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig edrych ar **berthnasedd cymaryddion**, ac edrych ar eu cynnig, yr amgylchiadau a'r nodweddion allweddol, a pha un a yw cymariaethau yn rhesymol ac ystyrlon.

Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o wneud llawer o feincnodi ynghylch prisio gan Wordsworth Grasmere, yn enwedig yn dilyn ailddatblygu er mwyn gwirio sut yr oeddent yn eu cymharu ag amgueddfeydd ac atyniadau ymwelwyr perthnasol eraill – gan bwysleisio bod meincnodi gydag atyniadau ymwelwyr eraill o fathau gwahanol sydd ag amserau aros tebyg yn bwysig, yn lle edrych yn unig ar amgueddfeydd eraill. Mae'n bwysig iawn i sicrhau bod cymaryddion meincnodi yn berthnasol yn nhermau amser aros, y math o gynulleidfa, ansawdd y cynnig a chyfleusterau.

Dylai penderfyniadau bob amser fod yn seiliedig ar ddata da a dadansoddiad cadarn.




# Meincnodau Codi Tâl

# Meincnodau Codi Tâl

Mae'r tabl isod yn dangos prisiau ar gyfartaledd o'r arolwg ar gyfer yr amgueddfeydd sydd yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol. Cwblhawyd yr arolwg yng ngwanwyn a haf 2023 ac mae'n cyfeirio at brisiau o'r cyfnod hwnnw o amser.

| | Cymedr (£) | Canolrif (£) | Gwerth is (£) | Gwerth uwch (£) | Cyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedolyn | 8.99 | **7.60** | 2.00 | 45.00 | 210 |
| Consesiwn | 7.63 | **6.60** | - | 26.00 | 126 |
| Plentyn (hŷn) | 3.64 | **3.00** | - | 18.00 | 204 |
| Plentyn (iau) | 0.70 | **-** | - | 8.50 | 198 |
| Teulu | 26.46 | **24.00** | 7.00 | 77.00 | 105 |

Wrth osod prisiau bydd sefydliadau eisiau adlewyrchu ar ble mae eu hamgueddfa a'u cynnig ymwelwyr yn eistedd o fewn y meincnodau cenedlaethol a lleol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u cynnig eu hunain a sut y gall hyn gael ei ganfod gan ymwelwyr posibl.

- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn oedolyn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £7.60.
- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn consesiwn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £6.60.
- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn plentyn iau ar gyfer mynediad cyffredinol yw £0.
- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn plentyn hŷn ar gyfer mynediad cyffredinol yw £3.
- Y pris canolrifol ar gyfer tocyn teulu safonol ar gyfer mynediad cyffredinol yw £24.

Mae rhywfaint o amrywiaeth ddaearyddol mewn prisiau mynediad ar gyfartaledd – y pris cymedr i oedolyn yn Lloegr a'r Alban oedd £8, tra bod y pris hwn yn £6.50 yng Nghymru.

Mae amgueddfeydd yng Ngogledd Lloegr yn adrodd pris oedolyn ar gyfartaledd sydd yn is nag amgueddfeydd yng Nghanolbarth neu Dde Lloegr (£7 o'i gymharu ag £8.80 ac £8) a chonsesiynau (£5 o'u cymharu â £6.88 a £7). Hefyd:

- Mae ychydig iawn o amrywiaeth yn y prisiau canolrifol yn ôl y math o amgueddfa ar gyfer oedolion, ond mae rhywfaint o amrywiaeth o ran mathau eraill o docyn. Er bod ychydig iawn o amrywiaeth yn y prisiau mynediad canolrifol yn ôl y math o amgueddfa yn gyffredinol, mae'r tebygolrwydd o godi tâl ai peidio yn amrywio'n fwy yn ôl math o amgueddfa. Felly, er nad yw prisiau yn amrywio llawer yn ôl math yr amguedddfa, mae'r tueddiad i godi tâl yn amrywio.
- Nid oes unrhyw amrywiaeth yn y pris canolrifol i oedolyn rhwng y prif categorïau o gyllido craidd.
- Mae prisiau canolrifol i oedolyn ar y cyfan yn is mewn ardaloedd sydd yn adrodd nad yw'n 'gystadleuol o gwbl' i ddenu ymwelwyr. I'r amgueddfeydd hynny sydd yn wynebu cystadleuaeth leol i ymwelwyr, nid yw cystadlu o ran pris yn ymddangos i fod yn strategaeth gyffredin – mae ardaloedd gyda mwy o gystadleuaeth yn dangos prisiau canolrif uwch mewn perthynas.
- Po fwyaf arwyddocaol i economi ymwelwyr yr ardal leol yw'r amgueddfa, yr uwch yw'r prisiau mynediad canolrifol.
- Po fwyaf yw'r amgueddfa, yr uwch yw'r pris oedlyn canolrifol (£6.75 i amgueddfeydd â hyd at 20,000 o ymwelwiadau; £12 i amgueddfeydd â rhwng 20,000 a 50,000 o ymwelwiadau; £13.50 i amgueddfeydd â rhwng 50,000 a 100,000 o ymwelwiadau, a £19.80 i amgueddfeydd â mwy na 100,000 o ymweliadau).

Mae meincnodau mwy manwl sydd yn seiliedig ar nodweddion gwahanol amgueddfeydd, a fydd o bosib o gymorth i amgueddfeydd unigol wrth iddynt benderfynu ar brisio, ar gael yn yr adroddiad cyflawn.

Yn ogystal ag edrych ar feincnodi cenedlaethol, gall sefydliadau hefyd ymchwilio i amgueddfeydd, atyniadau treftadaeth ac ymwelwyr eraill sydd yn lleol er mwyn deall ble fydd eu prisio arfaethedig yn eistedd yn y cynnig lleol.




# Effaith Newidiadau ar Strategaethau Codi Tâl Mynediad

# Effaith Newidiadau ar Strategaethau Codi Tâl Mynediad

I'r amgueddfeydd hynny a oedd yn newid eu safle codi tâl mynediad, y math mwyaf cyffredin o newid o bell ffordd oedd cynnydd mewn costau mynediad (70% o'r rhai a wnaeth newid), ac wedyn cyflwyno math(au) newydd o docyn (30% o'r rhai a wnaeth newid). Mae gwneud newid mwy sylweddol wedi bod yn llai cyffredin, ond wedi digwydd – roedd 18% yn adrodd eu bod yn symud o godi tâl i fynediad di-dâl tra bod 11% yn adrodd symud o fynediad di-dâl i godi tâl.

I'r amgueddfeydd hynny a gyflwynodd **cynnydd mewn pris mynediad**, yr effaith mwyaf cadarnhaol yw bod cyfanswm yr incwm o fynediadau wedi cynyddu, gyda rhai hyd yn oed yn adrodd canlyniadau cadarnhaol o ran nifer yr ymwelwyr, a gwario eilaidd ar y safle. Roedd llawer o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisiau yn adrodd fod ychydig iawn o effaith negyddol, gyda rhai yn darganfod eu bod wedi bod yn tanbrisio am rywfaint o amser.

Nid yw'n ymddangos mai mater i staff yn unig yw pryder am sensitifrwydd pris, a synnwyr cysylltiedig o nerfusrwydd ynghylch prisio, gyda rhai amgueddfeydd yn adrodd pryderon a godir gan wirfoddolwyr, ac eraill sydd yn nodi amharodrwydd gan Ymddiriedolwyr wrth eu cyflwyno gydag argymhellion i godi prisiau gan staff.

Yr effaith mwyaf cadarnhaol o ran **cyflwyno'r math(au) newydd o docyn** yw cynnydd yn y cyfanswm o incwm mynediadau, ac yna nifer yr ymwelwyr a demograffeg ac amrywiaeth yr ymwelwyr. Adroddwyd dim newid gan lawer o amgueddfeydd fel yr effaith mwyaf cyffredin ar gyfer y mwyafrif o agweddau a ystyrir o ganlyniad i fathau o docyn yn newid. Nodwyd cynnydd yn y galw am basys blynyddol gan rai amgueddfeydd oherwydd yr argyfwng costau byw. Gellir ystyried hyn fel ymwelwyr yn ceisio cael rhagor o werth o'u hymweliadau, a fydd o bosib yn gwneud prisio pas blynyddol yn gywir yn ffordd dda o gydbwyso rhwng incwm a hygyrchedd yr amgueddfa.

**Roedd symud o godi tâl mynediad i fynediad di-dâl** fel arfer yn cynhyrchu niferoedd gwell o ymwelwyr yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar ddemograffeg ac amrywiaeth yr ymwelwyr a hefyd rhoddion digymell ar y safle. Adroddwyd effeithiau cadarnhaol eraill fel gwario eilaidd ar y safle a pherthynas yr amgueddfa â'r gymuned leol. Yr effaith mwyaf negyddol yw, heb syndod, ar incwm mynediadau.

Mae amgueddfeydd sydd yn **symud o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad** yn amlygu'r effaith mwyaf cadarnhaol fel cynnydd yn y cyfanswm o incwm mynediadau, ac yna effeithiau cadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr ac amser aros yr ymwelwyr. Y tu hwnt i hyn, ni amlygwyd unrhyw newid gan lawer o amgueddfeydd yn nhermau'r effeithiau, er bod rhai yn awgrymu bod llai o ymwelwyr a gostyngiad mewn rhoddion digymell ar y safle.



# Cyfathrebu

# Cyfathrebu

**Mae cyfathrebu yn hanfodol**, ac ni ellir gorddweud hyn.

Mae gwersi allweddol gan Kirklees Museums & Galleries am newid y strategaeth brisio mynediad yn cynnwys gwrando ar dîmau blaen y tŷ – *"y nhw yw'r bobl sy'n siarad â'r ymwelwyr"*, yn ogystal â gwerthfawrogi'r heriau biwrocrataidd a thechnegol y gellir eu wynebu wrth weithredu systemau newydd (yn enwedig i amgueddfeydd awdurdod lleol) – "*byddwch yn amyneddgar*". Mae'n bwysig cydnabod bod newid diwylliant yn digwydd gyda newid strategaeth fynediadau a bod angen*"mynd â'r staff gyda chi"* ar y newid hwnnw – gan eu grymuso a chael ymwrwymiad gan staff i *"sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o newid"*.

Eglurwch benderfyniadau codi tâl. **Dylai pawb mewn amgueddfa, o ystafell y bwrdd i flaen y tŷ, staff cyflogedig neu wirfoddol ddeall ac eirioli dros yr amgueddfa.** Mae hyn yn gweithio dwy ffordd, felly gwrandewch ar eich cynulleidfaoedd a gwrandewch ar eich tîm blaen y tŷ. Mae eu profiadau a'u safbwyntiau yn ddilys ac yn werthfawr.

**Byddwch yn glir iawn wrth gyfathrebu'r rhesymau pam fod unrhyw newidiadau pris wedi digwydd**, yn enwedig newidiadau mawr. Gall hyn gynnwys naratif clir ar gostau cynyddol i'r amgueddfa yn ogsystal â naratif clir am ychwanegu at ansawdd y cynnig i ymwelwyr. Mae'n bwysig i bwysleisio'r gwerth y mae ymwelwyr yn ei gael fel rhan o'r cyfathrebu hwn.

Mae Dinefwr yn pwysleisio'r pwysigrwydd o *"eglurder prisiau mynediad"* a bod *"y rhesymau am y costau yn helpu i ymwelwyr ddeall gwerth eu mynediad"*. Fel gyda llawer o enghreifftiau eraill, roeddent hefyd yn amlygu fod *"angen i staff gael hyfforddiant ynghylch hyn a chael hyder yn y costau"*. Pwysleisiodd Dinefwr hefyd *"nad yw hyn yn rhwydd"* i'w wneud wrth newid pethau – *"peidiwch â gadael i bobl feddwl y byddai'n rhwydd"*, ac mae'n bwysig hefyd i gael "cyfathrebu agored" ac i *"siarad drwy'r materion"* gyda'r tîm ac i *"ddod â'r tîm gyda chi"* – byddwch yn *"agored ac onest"* gyda staff ac ymwelwyr. Mae llawer o elfennau gwahanol yn ategu'r llwyddiant a welwyd, yn enwedig *"yr hyder a'r penderfyniad"*.

Rhaid i amgueddfa annibynnol heb unrhyw gyllido craidd sydd yn gorfod codi tâl er mwyn bod yn hyfyw gyfathrebu hyn yn hyderus, yn fewnol ac allanol. Byddwch yn barod ar gyfer y trafodaethau hyn, a hyfforddwch staff blaen y tŷ a gwirfoddolwyr i'w cael yn gadarnhaol gydag ymwelwyr.

Gall ymwelwyr sydd yn cyrraedd y ddesg flaen gyda disgwyliadau gwahanol ynghylch mynediadau arwain at densiwn, embaras a rhwystredigaeth. **Sicrhewch eich bod mor glir a phosib o flaen llaw er mwyn osgoi'r sgôp am drafodaethau anodd wrth y ddesg** (gall enghreifftiau gynnwys codi tâl ychwanegol i arddangosfeydd, tocynnau teulu cymhleth, materion ynghylch Gift Aid, rhoddion a.y.b, a gall hyn gynnwys defnyddio gwefannau neu bosteri neu wybodaeth arall y safle i wneud tocynnu yn glir fel bod pobl yn gwybod beth i ofyn amdanynt).

Mae tystiolaeth o rywfaint o **symleiddio tocynnau**, gyda llai o fathau o docyn yn cael eu cynnig. Mae hyn yn cynnig amrywiaeth o fanteision i amgueddfeydd, yn enwedig o ran proses haws a llyfnach ar flaen y tŷ ar gyfer ymwelwyr a staff/gwirfoddolwyr.

Mae Amgueddfa Beamish yn adlewyrchu ar ei newidiadau tocyn dros y blynyddoedd diweddar, ac wedi casglu fod defnyddio llai o fathau o docyn wedi bod yn effeithiol – *"po fwyaf syml yw'r cynnig, y mwyaf yw'r ffocws ar y cwsmer"*; *"roeddem yn gweithio'n galed iawn i'w wneud yn rhwydd"*; a "mae gennym rhagor o waith i'w wneud yn y maes hwn, ac rydym yn y broses o adolygu ein proses fynediadau – gan weithio tuag at fanteisio ar y ddatrysiadau digidol sydd ar y farchnad er mwyn rhoi'r mynediad llyfnaf posib i'r amgueddfa i'n hymwelwyr".  O ystyried y nifer o ymwelwyr y gall Beamish gael mewn diwrnod, *"rhaid i hyn fod yn syml"*.

Mae llawer o amgueddfeydd yn **tynnu i ffwrdd neu yn symleiddio tocynnu consesiwn**, ac mae'n bwysig i fod yn eglur ac yn uniongyrchol gyda negeseuon am gonsesiynau gan bobl hŷn yn enwedig.

Yn ystod y pandemig, tynnwyd rhai tocynnau consesiwn i ffwrdd gan Ironbridge, gyda thocynnau yn cael eu dosbarthu fel rhai oedolyn, plentyn, myfyriwr a gofalwr craidd. Nid oedd unrhyw adroddiadau gan dîmau blaen y tŷ am unrhyw broblemau gyda'r newid hwn.



# Targedu cynulleidfaoedd

# Targedu cynulleidfaoedd

**Nid yw codi tâl yn golygu eich bod yn canolbwyntio yn unig ar gynulleidfaoedd sydd yn gallu talu.**

Er enghraifft, cyflwynodd y Charles Dickens Museum fynediad di-dâl cysylltiedig â phartneriaeth, gan weithio gydag elusennau, partneriaid a grwpiau cymunedol, i nodi grwpiau cynulleidfa mewn angen er mwyn cynnig mynediad di-dâl iddynt.

Mae'r National Civil War Museum yn Newark yn adolygu'r heriau o ddarparu gwasanaethau ar ôl COVID ac effeithiau'r argyfwng costau byw, gyda phenderfyniad i gynnig mynediad di-dâl yn barhaol i breswylwyr. Gwnaed y penderfyniad hwn, a weithredwyd yn Ebrill 2023, oherwydd lefelau isel o ymgysylltiad gyda phreswylwyr pan fod tâl mynediad, a'r angen i gynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref. Mae'r amgueddfa yn disgwyl mwy o ymwelwyr o gynulleidfaoedd targed, cymuned leol sydd yn ymgysylltu'n well, a fydd yn arwain at eiriolaeth well, a chyfleoedd i gynyddu gwario eilaidd ar y safle.

Mae nifer o amgueddfeydd yn cyflwyno mynediad di-dâl i blant gydag oedolion sydd yn talu, yn rhannol i symleiddio tocynnau, ac yn rhannol i dargedu cynulleidfaoedd teulu.

Ystyriwyd 'prisio amrywiol safonol' a 'Pay What You Like' gan rai amgueddfeydd i helpu i dargedu cynulleidfaoedd (fel rhai ag incwm is, a rhai gydag anghenion hygyrchedd a fydd o bosib eisiau osgoi cyfnodau mwy prysur).





# Gwersi penodol i'r rhai sy'n codi tâl mynediad

# Gwersi penodol i'r rhai sy'n codi tâl mynediad

Mae'n bwysig i fod yn **hyderus wrth wneud penderfyniadau am brisio, ac i beidio â thanwerthu**. Mae llawer o amgueddfeydd sydd yn codi tâl yn dadlau bod codiadau pris blynyddol yn cael eu derbyn yn gyffredinol gan ymwelwyr pan gaiff yr ymweliad ei ystyried yn werth am arian.

Er enghraifft, adroddodd Brooklands Museum eu bod wedi colli lefel arwyddocaol o incwm posib yn y gorffennol drwy ofyn prisiau rhy isel, ac felly wedi cynyddu eu prisiau yn gyson, ac yn sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf heb unrhyw effeithiau negyddol.

Mae gwersi allweddol ynghylch y newid mewn prisio mynediad ar gyfer Llety'r Barnwr yn cynnwys cael digon o hyder i'w newid – "*peidiwch ag ofni ei wneud*"; "*peidiwch ag ofni cynyddu'r prisiau*" – wrth sicrhau bod cydbwysedd yn y ffordd y caiff ei gyflwyno, a bod gennych "*neges glir a chyson*" am brisiau, a'ch bod yn gwthio'r neges am fod yn annibynnol a bod gorfod cynhyrchu incwm yn rhan bwysig o hynny.

Wrth adlewyrchu ar y newid o fynediad di-dâl i godi tâl mynediad, nodwyd gan y National Football Museum y bydd "*nifer yr ymwelwyr yn gostwng, ond bydd ymgysylltiad ac amserau aros yn cynyddu*", ac yn ogystal â hyn, mae incwm wedi "*cynyddu a dod yn fwy rhagweladwy a dibynadwy o lawer*". Roedd yr Amgueddfa yn amlygu eu bod yn"*creu mecanwaith i adael i bobl o'r ardal leol ymweld yn ddi-dâl*", a hefyd "*ar ôl i ni ddechrau codi tâl, gweithiom hyd yn oed yn fwy caled i wneud yr ymweliad yn well o ran gwerth arian a mwynhad, felly mae'n cynnig cyffredinol ar ôl cyflywno codi tâl yn well.*"

Roedd y **mwyafrif o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisiau mynediad yn adrodd mai dim ond ychydig iawn o ymatebion negyddol gan gynulleidfaoedd** a gafwyd dros hyn, gan adrodd dim gwahaniaeth mewn niferoedd ymwelwyr, ac ychydig iawn o dystiolaeth o elastigedd pris. Nid yw gwario eilaidd ar y safle fel arfer yn cael ei effeithio gan newidiadau pris.

Er enghraifft, yn ôl Ymddiriedolaeth Bletchley Park, roedd ymwelwyr yn gyffredinol yn derbyn codiadau pris ar yr amod fod y gwerth yn glir, a thra bod ymwelwyr o bosib yn teimlo fod prisiau yn ddrud yn gychwynnol, mae'r canfyddiadau hyn yn newid wrth iddynt weld gwerth y cynnig.

Mae'n gymorth i **gyflwyno codiadau pris sylweddol gyda datblygiadau newydd**, gan gynnig mwy o werth i ymwelwyr, fel adnewyddu, gwagleoedd newydd, ac arddangosfeydd newydd. Mae hyn yn enwedig o bwysig wrth nesáu at drothwy pris – dylai amgueddfeydd bob amser fod yn ystyriol o symud o, er enghraifft, £9.99 i £10.

Er enghraifft,  ailagorwyd Wordsworth Grasmere yn 2021 gyda strwythur prisiau newydd, a chynnydd prisiau i adlewyrchu'r cynnig ehangach, wedi'i gydbwyso â thocynnau teulu â disgownt a chonsesiwn newydd ar gyfer tocyn oedolion 65+.

Mae symud o fynediad di-dâl i godi tâl yn aml yn lleihau niferoedd ymwelwyr (wrth yn dal i gynyddu incwm), ond mae protestiadau torfol yn anghyffredin. Mae'r lleihad mewn niferoedd ymwelwyr yn bennaf oherwydd bod codi tâl yn atal ymweliadau cyflym i'r amgueddfa, gydag amserau aros yn cynyddu o ganlyniad.

Cyflwynwyd tâl mynediad a chynnydd pris mynediad dilynol gan Trimontium Museum yn dilyn gwaith adnewyddu mawr, gan bwysleisio'r pwysigrwydd o feincnodi â chystadleuwyr perthnasol eraill (h.y., safleoedd Rhufeinig yn achos Trimontium) yn ogystal â rhoi ystyriaeth ddigonol i'r amgylchiadau economaidd presennol a sicrhau nad ydych yn "*prisio'ch hun allan o bocedi pobl*". Mae hyn yn arbennig o bwysig i amgueddfeydd mewn cymunedau bach, ac mae'r defnydd o gymhellion fel diwrnodau mynediad di-dâl, diwrnodau cymuned a.y.b. yn rhan bwysig o'r cynnig.

Mae prisio deinamig yn cael ei ystyried gan amgueddfeydd mawr i reoli brigau (maent fel arfer yn rhoi disgowntiau yn ystod cyfnodau mwy tawel i reoli capasiti), ac hefyd i annog cyfranogaeth gyda chynulleidfaoedd targed.

Mae'r Natural History Museum yn edrych ar sut i brisio'n ddeinamig er mwyn helpu i dargedu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol (fel pobl ag incwm is; pobl ag anghenion hygyrchedd a fydd o bosib eisiau osgoi cyfnodau mwy prysur) i gael mynediad yn ystod slotiau mwy tawel ar gyfer arddangosefydd sydd â thâl fel Wildlife Photographer of the Year.

Nid yw'r mwyafrif o amgueddfeydd yn cynnig disgowntiau ar gyfer archebu ar-lein.




# Gwersi penodol ar gyfer rhai nad ydynt yn codi tâl mynediad

# Gwersi penodol ar gyfer rhai nad ydynt yn codi tâl mynediad

**Nid codi tâl yw'r unig ffordd o gynhyrchu incwm gan ymwelwyr.** Mae siopau a bwytai yn gweithio'n dda i rai amgueddfeydd, fel y mae digwyddiadau a lletygarwch corfforaethol, ffilmio a digwyddiadau arbenning am dâl. Yn ychwanegol, gall y rôl o roddion ar gyfer y rhai nad ydynt yn codi tâl fod yn allweddol.

> Roedd Kirklees Museums & Galleries yn arfer codi tâl mynediad i Oakwell Hall ond newidwyd y strategaeth brisio i fynediad di-dâl o ganlyniad i'r pandemig, er mwyn annog ymwelwyr i ddychwelyd ac i ddarparu pobl leol â mynediad di-dâl i'r Neuadd. Mae mynediad di-dâl wedi'i gynnal am y tro, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr sydd wedi bod yn ganlyniad i hyn, yn ogystal â manteision ehangach strategaeth fel hon i'r gwasanaeth yn nhermau mynd i'r afael ag anghenion y gymuned a chael effaith gadnarnhaol ar anghydraddoldebau. Mae Kirklees Museums & Galleries yn adrodd fod y symudiad i fynediad di-dâl wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar niferoedd eu hymwelwyr (maent erbyn hyn yn fwy na thair gwaith beth oeddent cyn y pandemig) yn ogystal ag amrywiaeth yr ymwelwyr, a nifer yr ymwelwyr lleol yn ogystal â'r adborth gan y gymuned leol.

> Wrth adlewyrchu ar y cyfnod pan gynigwyd mynediad di-dâl (oherwydd y pandemig), nodwyd y canlynol gan y Library of Innerpeffray"gyda mynediad 'drwy rodd' neu 'pay what you will' (yn ystod tymor tawel) roedd yr incwm o roddion yn arwyddocaol". Ystyriwyd cadw'r polisi rhodd/'pay what you like' – yn enwedig oherwydd fod ganddo"gysylltiadau clir i'n pwrpas/egwyddorion sefydlu" ond nid oedd rhoddion yn cyrraedd y lefelau o incwm a gafwyd gan fynediadau, felly mae codi tâl, ond gyda'r cynnig o fis o fynediad di-dâl bob mis Mawrth yn gweithio'n dda.

**Os ydy rhoddion yn rhan bwysig o strategaeth brisio amgueddfa, mae'n hanfodol i fod yn glir ac yn gydgysylltiedig.** Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu disgwyliadau ynghylch 'Pay What You Like', lleoliad y pwyntiau rhodd yn yr amgueddfa, a'i wneud yn hawdd (os nad yn haws) i wneud rhodd heb ddefnyddio arian parod.

> Adlewyrchwyd ar nifer o wersi allweddol ynghylch codi tâl mynediad a chwilio am roddion gan ymwelwyr sydd yn bwysig i'w hamgueddfeydd i gyd gan Live Borders, ac mae hyn yn cynnwys: "mae'r pwysigrwydd o gyfleu'r neges i bobl yn allweddol" – yn enwedig ynghylch pwysleisio statws elusennol a mantais y rhodd i'r amgueddfa a'r casgliad.

Mae'n bwysig i **hyfforddi staff a gwirfoddolwyr** i gefnogi unrhyw ddulliau gweithredu ynghylch rhoddion.

> Mae Heritage Centre Bellingham wedi sylw bod cael strategaeth mynediad 'pay what you feel' yn haws i'r amgueddfa, ond yn pwysleisio'n gryf ei fod yn bwysig hyfforddi'r gwirfoddolwyr ar y strategaeth newydd o ofyn am roddion. Mae'r Ganolfan wedi sylwi ei fod yn haws i ofyn am roddion, ac mae'r model hwn yn golygu nad oes unrhyw broblemau i wirfoddolwyr ddelio gyda nhw ar flaen y tŷ gyda phobl nad ydynt eisiau talu am fynediad: "mae'n neges fwy cadarnhaol o lawer"; "mae'n haws o lawer i wirfoddolwyr wneud hyn – nid oes unrhyw drafodaethau anodd wrth y ddesg flaen". Pwysleisiwyd hefyd gan y Ganolfan y gallwch gael "ymateb o syndod pleserus" pan fod ymwelwyr yn sylweddoli fod mynediad yn ddi-dâl.

Mae 'Pay What You Like' yn gweithio'n dda fel strategaeth roddion i rai, gan ei fod yn rhoi neges glir nad yw rhoddion yn cael eu cynnwys.



# Crynodeb o Bwyntiau Cyngor

# Crynodeb o Bwyntiau Cyngor

**Pwysigrwydd cynllunio ac adolygu busnes**

- Ni ddylid ystyried prisio ar wahân, rhaid i hyn fod yn rhan o'r broses gynllunio busnes.
- Mae adolygu strategaeth brisio yn flynyddol yn arfer da.
- Rhaid i unrhyw godiadau pris fod yn rhan o'r strategaeth gynllunio busnes a chyllido cyffredinol. Ydy'r rhain yn cael eu hysbysu gan darged incwm cytûn?
- Gall defnyddio meincnodi helpu i roi hyder i fyrddau neu bobl eraill sydd yn gwneud penderfyniadau.
- Ond, mae'n bwysig edrych ar berthnasedd cymaryddion , eu cynnig, eu hamgylchiadau a'u nodweddion allweddol, ac ystyried pa un a ydy'r cymariaethau yn rhesymol ac ystyrlon.

**Cyfathrebu**

- Eglurwch benderfyniadau codi tâl. Byddwch yn eglur wrth gyfathrebu am y rhesymau pam fod newidiadau wedi digwydd.
- Dylai pawb mewn amgueddfa, o ystafell y bwrdd i flaen y tŷ, pobl gyflogedig neu wirfoddolwyr ddeall y rhesymeg.
- Mae cyfathrebu yn gweithio'r ddwy ffordd - gwrandewch ar eich cynulleidfaoedd a'ch tîm blaen y tŷ. Mae eu profiadau a'u safbwyntiau yn ddilys ac yn werthfawr. Allech chi gasglu gwybodaeth am werth eich cynnig mewn arolygon ymwelwyr, er enghraifft, i hysbysu penderfyniadau yn y dyfodol?

**Targedu**

- Nid yw codi tâl yn golygu eich bod yn canolbwyntio yn unig ar gynulleidfaoedd sydd yn gallu talu.
- Defnyddir 'Prisio armywiol sefydlog' a 'Pay What You Like' gan rai amgueddfeydd i helpu i dargedu segmentau penodol o'u cynulleidfa.
- Mae rhai amgueddfeydd yn cynnig mynediad di-dâl i blant gydag oedolion sy'n talu, yn rhannol i symleiddio tocynnau, ac yn rhannol i dargedu cynulleidfaoedd teulu.

**Gwersi penodol i amgueddfeydd sydd yn codi tâl mynediad**

- Byddwch yn hyderus wrth wneud penderfyniadau am brisio, peidiwch â thanwerthu. Beth ydy'ch arolygon yn dweud wrthych neu yn gallu dweud wrthych am werth eich cynnig?
- Mae'r mwyafrif o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu eu prisiau mynediad yn adrodd ychydig iawn o ymateb negyddol gan gynulleidfaoedd ynghylch hyn, nag unrhyw wahaniaeth mewn niferoedd ymwelwyr, ac ychydig iawn o dystiolaeth o elastigedd pris.
- Yn yr ymchwil nid yw'n ymddangos fod gwario eilaidd ar y safle yn cael ei effeithio gan newidiadau pris.
- Mae'n gymorth i gyflwyno / alinio unrhyw godiadau pris arwyddocaol a gynllunir wrth gyflwyno datblygiadau newydd arwyddocaol.

**Gwersi penodol ar gyfer y rhai nad ydynt yn codi tâl mynediad**

- Nid codi tâl yw'r unig ffordd o gynhyrchu incwm gan ymwelwyr.
- Os ydy rhoddion yn rhan bwysig o strategaeth brisio amgueddfa, mae'n hanfodol i fod yn glir ac yn gydgysylltiedig.
- Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu disgwyliadau ynghylch 'Pay What You Like', lleoliad y pwyntiau rhodd yn yr amgueddfa, a'i wneud yn hawdd (os nad yn haws) i wneud rhodd heb ddefnyddio arian parod.



# Canfyddiadau allweddol o’r ymchwil

## Safle codi tâl presennol amgueddfeydd

# Canfyddiadau allweddol o'r ymchwil
## Safle codi tâl presennol amgueddfeydd

Mae ychydig dros hanner (51%) o'r amgueddfeydd a ymatebwyd i'r arolwg yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol tra nad yw dros draean ohonynt (36%) yn codi unrhyw dâl mynediad o gwbl. Mae ychydig yn llai nag un o bob deg ohonynt (8%) yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol a mynediad i arddangosfeydd penodol, tra bod 4% yn codi tâl ar gyfer mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig.

Ar y cyfan, mae hyn yn dangos fod 64% o amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediad mewn rhyw ffurf, tra bod 36% o amgueddfeydd yn adrodd nad ydynt yn codi tâl ar gyfer mynediad o gwbl.

Mae cymharu'r canlyniadau hyn gyda'r ymchwil flaenorol 'Taking Charge' (2016) yn dangos fod cyfran uwch o amgueddfeydd erbyn hyn yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol (51% yn 2023 o gymharu â 42% yn 2016), yn ymyl lleihad yn y rhai nad ydynt yn codi tâl o gwbl (o 43% i 36%). Mae lleihad hefyd yn y gyfran o amgueddfeydd sydd yn codi tâl ar gyfer mynediad cyffredinol ac i arddangosfeydd penodol (o 12% i 8%).

Mae amgueddfeydd awdurdod lleol yn llai tebygol o godi tâl mynediad o'u cymharu ag amgueddfeydd annibynnol neu rai cyn-awdurdod lleol. Nid yw 71% o amgueddfeydd awdurdod lleol yn codi tâl tra bod dim ond 33% o amgueddfeydd annibynnol a chyn-awdurdod lleol yn peidio â chodi unrhyw dâl o gwbl. Nid yw amgueddfeydd prifysgol yn codi tâl o gwbl ar gyfer mynediad, mae Amgueddfeydd Cenedlaethol yn codi tâl mynediad i arddangosfeydd penodol yn unig, ac mae amgueddfeydd milwrol yn fwy tebygol o godi tâl mynediad o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol.

Mae amrywiaethau daearyddol bach yn unig o ran safle codi tâl mynediad i amgueddfeydd. Mae amgueddfeydd yn Llundain a De Orllewin Lloegr ychydig yn fwy tebygol o beidio â chodi tâl mynediad, tra bod amgueddfeydd yng Ngogledd Lloegr yn fwy tebygol o godi tâl mynediad cyffredinol o'u cymharu â'r cyfartaledd, sydd hefyd yn wir o amgueddfeydd yng Nghymru.

Mae amgueddfeydd sydd â chyllidwyr craidd yn gyfrifol am fwy na 75% o'u hincwm yn llai tebygol o godi tâl mynediad (nid yw 64% o'r amgueddfeydd hyn yn codi tâl o'u cymharu â 36% ar y cyfan).
Mae amgueddfeydd sydd heb unrhyw gyllidwyr craidd yn adlewyrchu'r safle cyffredinol o bob amgueddfa gyda 35% yn peidio â chodi tâl mynediad o'u cymharu â'r cyfartaledd cyffredinol o 36%.

Mae perthynas glir iawn yn dod i'r amlwg pan gaiff pwysigrwydd hunan-adroddedig yr amgueddfa i'r economi ymwelwyr lleol ei hystyried mewn perthynas â'r polisi prisio mynediad presennol:

- Pan nodir yr amgueddfa fel 'ddim yn bwysig o gwbl' - 27% sydd yn codi tâl.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad o fân arwyddocâd' - mae 55% yn codi tâl.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad o arwyddocâd cymedrol' - mae 62% yn codi tâl.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'un o nifer o atyniadau arwyddocaol' - mae 72% yn codi tâl.
- Pan nodir yr amgueddfa fel 'atyniad allweddol' – mae 81% yn codi tâl.

Mae edrych ar y safle codi tâl mynediad yn gymharol â'r math o ymwelwyr y mae amgueddfeydd fel arfer yn eu cael yn dangos fod amgueddfeydd ble mae'r gyfran o ymwelwyr lleol yn cyfrif am fwy na 50% o'r gynulleidfa yn llai tebygol o godi tâl mynediad (nid yw 41% yn codi tâl) o'u cymharu â'r rhai ble mae'r gyfran o ymwelwyr lleol yn llai na 50% o'r gynulleidfa (nid yw 24% yn codi tâl mynediad).

# Canfyddiadau allweddol o'r ymchwil
## Newidiadau i Safle Codi Tâl Mynediad Amgueddfeydd mewn Blynyddoedd Diweddar

Yn nhermau unrhyw newidiadau diweddar i'w safle codi tâl mynediad roedd hanner yr ymatebwyr (50%) yn adrodd nad oeddent yn gwneud unrhyw newid o gwbl.

I'r amgueddfeydd hynny a oedd wedi newid eu safle codi tâl mynediad, y math mwyaf cyffredin o newid o bell ffordd oedd cynnydd mewn costau mynediad (70%). Y newid mwyaf cyffredin ar ôl hyn oedd cyflwyno math(au) newydd o docyn mynediad (30%). Dim ond lleiafrif bach o ymatebwyr (5%) a oedd yn adrodd cyflwyno lleihad yn eu prisiau mynediad dros y cyfnod hwn.

Yn nhermau gwneud newidiadau mwy sylweddol i'w safle codi tâl mynediad roedd 18% yn adrodd eu bod yn symud o godi tâl i fynediad di-dâl yn ystod y cyfnod hwn, tra bod 11% yn adrodd symud o fynediad di-dâl i godi tâl.

Roedd amgueddfeydd a oedd yn adrodd eu bod wedi cynyddu prisiau yn enwi amrywiaeth o ffactorau a oedd wedi eu hategu gan yr angen i gynyddu incwm. Y prif reswm am hyn yw costau cynyddol, yn ogystal â'r angen i wneud yr amgueddfa yn fwy cynaliadwy, er bod rhai yn cysylltu hyn i adferiad ar ôl y pandemig, a'r angen i ymateb i gwymp refeniw.

Eglurodd rhai amgueddfeydd a oedd yn newid eu dull gweithredu o ran codi tâl mai'r angen i symleiddio tocynnu, cynyddu ymwelwyr (yn gyffredinol yn ogystal â thargedu grwpiau penodol fel teuluoedd neu bobl ifanc ar ôl y pandemig), a gwella eu cynnig o ganlyniad i ailddatblygu neu adnewyddu a oedd yn arwain at hyn.

Roedd y mwyafrif o amgueddfeydd a oedd yn adrodd symud o godi tâl i fynediad di-dâl yn gwneud hyn i gynyddu ymwelwyr a gwneud y gorau o roddion mewn nifer o ffyrdd. Roedd amgueddfeydd a oedd yn symud o fynediad di-dâl i godi tâl yn enwi cynaliadwyedd fel y prif ffactor.

Amlygwyd meincnodi a dadansoddi cystadleuwyr gan lawer o amgueddfeydd fel rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau am godi tâl, gyda rhai yn amlygu pwysigrwydd y dull gweithredu hwn mewn cydbwyso'r angen i gynhyrchu incwm yn erbyn cyflawni'r pwrpas cyffredinol ni'r amgueddfa.

Amlygwyd adolygiadau ffurfiol gan rai amgueddfeydd fel rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau am newidiadau i fynediadau, yn arferol fel rhan o gylch cynllunio busnes blynyddol.

Yn y mwyafrif o achosion, gan gynnwys y rhai ble'r oedd adolygiadau a dadansoddi wedi digwydd, y prosesau llywodraethu yn eu lle ymhob amgueddfa a oedd yn gwneud y penderfyniadau ar bolisi mynediad. Fel arfer, bwrdd yr ymddiriedolwyr dan argymhelliad yr uwch reolwyr a fydd yn gwneud hyn.

O'r ymatebwyr hynny nad oeddent wedi newid eu safle prisio ond a oedd wedi ystyried gwneud newidiadau i'w safle codi tâl mynediad, roedd llawer ohonynt yn amlygu pwysau costau byw presennol yn ffactor allweddol mewn peidio â newid eu safle yn seiliedig ar bryderon am yr effaith negyddol posib y bydd unrhyw newidiadau yn eu cael ar hygyrchedd, ymgysylltiad â grwpiau cynulleidfaoedd targed a niferoedd ymwelwyr.

Yn nhermau'r prif ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y penderfyniad posibl i newid codi tâl yn 2023, amlygwyd yr angen i dalu costau cynyddol, cynyddu incwm, neu helpu cynaliadwyedd ariannol gan lawer o amgueddfeydd a oedd yn ystyried newid fel hyn. Mae costau fel y rhain yn cynnwys staffio, ynni a chyfleustodau, y gost o arddangosfeydd llwyfan, yn ogystal ag incwm a gollwyd yn ystod y pandemig.



# Canfyddiadau allweddol o'r ymchwil
## Ystyriaethau Eraill ynghylch Codi Tâl

Mae canfyddiadau ychwanegol ar agweddau ac ystyriaethau eraill ynghylch codi tâl yn cynnwys:

- Ychydig iawn o amgueddfeydd (2%) sydd wedi defnyddio prisio deinamig ar gyfer mynediadau, er bod un pumed wedi ystyried gwneud hyn.
- Mae bron i un o bob deg o ymatebwyr (9%) wedi defnyddio 'Pay What You Can / Pay What You Like', ac mae un pumed arall (19%) wedi ystyried gwneud hyn.
- Mae tua un o bob deuddeg (8%) o ymatebwyr yn adrodd eu bod wedi defnyddio codi tâl ar gyfer mynediad rhithiol neu ar-lein i'r amgueddfa, gydag un pumed arall (20%) wedi ystyried gwneud hyn.
- Mae codi tâl penodol ar gyfer ymweliadau ysgol yn fwy cyffredin o lawer – mae 51% wedi gwneud hyn ac 13% wedi ystyried gwneud hyn, gyda 36% heb wneud nag ystyried hyn.
- Yn ôl un pumed o ymatebwyr, maent wedi defnyddio, neu wedi ystyried defnyddio modelau prisio penodol eraill ar gyfer mynediadau. Mae'r mathau mwyaf cyffredin o fodelau prisio a adroddwyd yn cynnwys, yn nhrefn cyffredinrwydd: codi tâl ar gyfer ymweliadau grŵp; codi tâl ar gyfer digwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau eraill; rhoddion penodol, mynediad di-dâl, neu fodelau aelodaeth i ysgolion; disgowntiau ar gyfer archebu ar-lein / archebu o flaen llaw.

Os na chaiff yr ymatebwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer Gift Aid eu cynnwys, mae'r canlyniadau yn dangos nad yw 38% o amgueddfeydd yn hawlio Gift Aid ar gyfer mynediadau, gyda 34% yn hawlio Gift Aid ar fynediadau gan ddefnyddio'r cynllun pàs blynyddol, a 28% yn hawlio Gift Aid ar fynediadau gan ddefnyddio'r cynllun 10% ychwanegol.



# Am yr Awdwr

Hoffai DC Research a Durnin Research ynghyd â chynrychiolwyr y Grŵp Llywio ar gyfer y prosiect hwn (Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) a'i phartneriaid Arts Council England (ACE), Museums Galleries Scotland (MGS), Llywodraeth Cymru, Cyngor y Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol (NMDC), a'r Art Fund) estyn diolch i'r amgueddfeydd a'r unigolion i gyd a gyfrannwyd at yr astudiaeth ymchwil hon mewn ffyrdd amrywiol.

Mae hyn yn cynnwys pawb a oedd yn ymateb i'r arolwg, y rhai a gafodd eu hymgynhori gan y tîm astudio, a'r rhai a gytunodd i fod yn amgueddfa astudiaeth achos. Yn ogystal â hyn, estynir diolch i'r rhai a oedd yn darparu enghreifftiau o ymchwil a thystiolaeth flaenorol ynghylch codi tâl mynediad, a'r rhai a oedd yn gwneud sylwadau ar gasgliadau graddol gan yr ymchwil ar bwyntiau amrywiol (yn enwedig mynychwyr Cynhadledd Flynyddol AIM 2023).

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r sefydliadau hynny a oedd yn helpu mewn ffyrdd gwahanol i hyrwyddo'r arolwg o amgueddfeydd a ddigwyddodd fel rhan o'r ymchwil.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau hyn i gyd a'r amser a dreuliwyd yn fawr.